**EITEM AR YR AGENDA: 16**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17 Mawrth 2014**

**INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Darparu gwybodaeth am gostau yswiriant indemniad, a gofyn i'r Aelodau benderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Safonau wedi argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r polisi indemniad ar gyfer Aelodau a Swyddogion.

## CEFNDIR

2 Yn unol ag adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, mae'r Awdurdod yn gallu indemnio pob aelod a swyddog yn erbyn unrhyw golled atebolrwydd hawliad a/neu ddifrod mewn perthynas ag unrhyw weithred neu fethiant i weithredu gan aelod neu swyddog, gan gynnwys costau cyfreithiol am gynrychiolaeth os yw aelod yn destun ymchwiliad yn honni bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri.

## GWYBODAETH

### Y Sefyllfa Brydeinig/Gymreig

3 Mae Awdurdodau Lleol wedi gallu rhoi indemniadau i'w haelodau etholedig a'u swyddogion ers amser maith. Diben hyn yw rhoi sicrwydd iddynt na fydd raid iddynt wynebu biliau cyfreithiol mawr os cânt eu herlyn o ganlyniad i'w rôl. Petai indemniadau heb fod yn bosibl, gallai fod yn gymhelliad cryf i bobl beidio ag ymgymryd â gwasanaeth cyhoeddus naill ai fel swyddogion neu fel cynghorwyr.

4 Roedd Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau i roi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol i roi indemniadau mewn rhai amgylchiadau penodol. Daeth y rheoliadau hynny, sef Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, i rym ar 8fed Chwefror 2006. Y bwriad y tu ôl iddynt oedd egluro a allai awdurdod indemnio ei aelodau yn erbyn y costau o amddiffyn cyhuddiad fod y cod ymddygiad wedi ei dorri.

5 Yn fras, gall yr Awdurdod Tân roi indemniad am gostau amddiffyn cyhuddiad fod y cod wedi ei dorri. Os ceir y cynghorydd wedyn yn euog o dorri'r cod a'i fod naill ai'n cael ei ddiarddel neu ei atal, rhaid dychwelyd i'r awdurdod yr holl arian a dalwyd dan yr indemniad. Felly hefyd, os ceir aelod yn euog o fod wedi ymddwyn yn fwriadol neu'n ddi-hid, nid oes gan yr awdurdod bŵer i roi indemniad o gwbl a byddai'n rhaid ad-dalu unrhyw arian. Os yw'r aelod wedi torri'r cod ond ei fod yn cael gosb lai, gall yr awdurdod benderfynu gofyn am ad-dalu rhywfaint o'r arian.

6 Mae pryder yng Nghymru fod indemniadau o'r fath wedi ariannu'r gorddefnydd o gyfreithwyr fel bod gwrandawiadau tribiwnlys a'r Pwyllgor Safonau wedi mynd yn orgyfreithiol. Mae pryder hefyd am yr holl gost i'r pwrs cyhoeddus. Felly yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi annog awdurdodau i osod terfyn neu gap ar y swm o arian a gaiff ei dalu dan indemniad. Y lefel a argymhellir ar gyfer y cap yw £20,000, sef y swm uchaf y gellid ei dyfarnu mewn achos Tribiwnlys Cyflogaeth, gyda'r rhesymeg fod colli swydd ar yr awdurdod yn debyg i golli swydd gyflogedig.

## SAFBWYNT AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

7 Mae angen i'r ATA ystyried nifer o faterion:

1. a ddylid cynnig indemniad
2. a ddylid gosod cap
3. sut i ariannu unrhyw daliad o dan yr indemniad

8 Mae pob awdurdod lleol ac awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru yn cynnig indemniad i'w haelodau. Yn ddealladwy, mae telerau'r indemniad ynghlwm wrth y pwerau sydd yn y rheoliadau ac felly rhaid ad-dalu arian a delir o dan yr indemniad, fel y nodir ym mharagraff 3.3 uchod. Argymhellir rhoi indemniad tebyg i aelodau'r awdurdod tân.

9 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (10 allan o'r 16 a atebodd) yswiriant a chap ar unrhyw indemniadau. Mae llai o gysondeb gyda lefel y cap oherwydd mae rhai cynghorau yn cyfyngu eu hindemniad i lefel yr yswiriant. Fodd bynnag, £20,000 yn fras a dderbynir fel y terfyn uchaf, gyda 2 yn cynnig llai (£5,000 a £10,000). Boed yswiriant yn cael ei drefnu ai peidio, argymhellir gosod cap ar unrhyw indemniad a roddir.

10 Wrth benderfynu a yw yswiriant yn werth am arian, dylai'r pwyllgor ystyried pa mor debygol fyddai gwneud hawliad, o'i fesur yn erbyn cost yr yswiriant a'r gallu i dalu petai angen yr indemniad.

11 Nid yw'r Awdurdod wedi cael unrhyw honiadau ers cyflwyno'r rheoliadau. At hynny, nid yw wedi derbyn dim un gŵyn yn erbyn aelod ers cyflwyno'r cod ymddygiad yn 2001. Petai'r aelodau'n cytuno i fabwysiadu'r drefn datrys yn lleol (fel yr argymhellir mewn adroddiad arall ar yr agenda) bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd eto y gallai hawliad gael ei wneud dan yr indemniad oherwydd nid oes dim costau cyfreithiol yn daladwy dan y broses honno.

12 Cafwyd dyfynbrisiau gan ddau gwmni yswiriant. Mae un cwmni wedi rhoi £1500 fel isafswm. Mae'r cwmni arall wedi rhoi £826 ynghyd â threth premiwm yswiriant, sy'n gyfanswm o £875.56.

13 A chymryd nad oes pentwr o hawliadau (sy'n beth annhebygol), mae'r awdurdod yn hyderus y gallai dalu'r costau o dan indemniad. Mae gan yr awdurdod gronfa cyffredinol o £1.609 miliwn a gallai dalu unrhyw hawliadau o honno.

14 O ystyried y ffaith na fu unrhyw hawliadau hyd yn hyn ac y byddai talu bron i £900 y flwyddyn fod yn ddrutach na'i werth, cynghorir yr Aelodau:

1. nad yw'r yswiriant yn gost-effeithiol ac na ddylid ei drefnu;
2. nid oes angen cronfa benodol ac y bydd unrhyw hawliadau dan yr indemniad yn cael eu talu o'r gronfa gyffredinol.

**ARGYMHELLION**

15 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo:

(i) rhoi indemniad i ymorol am y costau cyfreithiol o amddiffyn cŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri'r cod ymddygiad ac na fydd unrhyw gostau cyfreithiol yn cael eu talu mewn perthynas â chŵyn a gaiff ei thrin dan y drefn datrys yn lleol;

(ii) os ceir bod aelod wedi torri'r cod

a. a'i fod yn cael ei ddiarddel neu ei atal; neu
b. ei fod wedi torri'r cod yn fwriadol neu'n ddi-hid (ni waeth os oes unrhyw gosb)

rhaid ad-dalu i'r awdurdod unrhyw arian, a'r swm i gyd, a dalwyd dan yr indemniad, ac os bydd yr amgylchiadau a restrir yn isbaragraffau 'a' neu 'b' yn codi:

- ni ofynnwyd am unrhyw arian ac ni thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU
- talwyd rhywfaint o'r costau cyfreithiol ond nid y cyfan

ni wneir unrhyw daliadau neu ni wneir unrhyw daliadau pellach (yn ychwanegol at ofyn am ad-dalu unrhyw daliadau).

(iii) os ceir yr aelod yn euog o dorri'r cod ac na roddir unrhyw gosb neu os yw'r aelod yn cael ei geryddu, gall yr Awdurdod ofyn am ad-dalu cyfran o unrhyw arian a dalwyd dan yr indemniad. Os

- na ofynnwyd am unrhyw arian na thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU
- talwyd rhywfaint, ond nid y cyfan, o’r costau cyfreithiol

gall yr Awdurdod ddewis talu cyfran yn unig o gostau’r aelodau, a gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gostau a dalwyd yn uwch na’r gyfran honno gael eu had-dalu;

iv) bydd costau unrhyw hawliadau dan yr indemniad wedi eu cyfyngu i £20,000, a chânt eu talu o’r gronfa gyffredinol.